Planning Aid Wales
Cymorth Cynllunio Cymru

Adroddiad Blynyddol 2019/20

Cefnogi ymgysylltiad a chyfranogaeth y gymuned yn y system gynllunio yng Nghymru

www.planningaidwales.org.uk
Rhif elusen 1000115
Cwmni yn gyfyngedig gan Warant 2526875 (Cymru)

Planning Aid **Wales**
Cymorth Cynllunio **Cymru**

Ynghylch Cymorth Cynllunio Cymru

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn hyrwyddo a hwyluso ymgysylltiad cymunedol ystyrlon yn y broses cynllunio yng Nghymru.

Gall ymgysylltiad cymunedol ystyrlon:

Roi llais i bobl a chynyddu eu sgiliau, hyder a'u gallu er mwyn dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol.

Gwella ansawdd, priodolrwydd a pherthnasedd datblygiadau newydd.

Cynyddu balchder, a synnwyr o berchnogaeth yn yr amgylchedd adeiledig.

Maethu cydweithredu rhwng datblygwyr, cynllunwyr a chymunedau gyda'r canlyniad y ceir cynlluniau gwell.

Gwella ansawdd a pherthnasedd polisi cynllunio trwy ystyried gwybodaeth leol.

Lleihau gwrthdaro, cyflymu a lleihau costau y broses rheolaeth datblygu.

As tFel y sefydliad ymgysylltiad cymunedol mewn cynllunio, ein rôl yw adeiladu dealltwriaeth o'r system gynllunio, cefnogi gwell ymgysylltiad â chynllunio lleol ac annog cydweithredu rhwng cymunedau, awdurdodau cynllunio a datblygwyr.

Trwy roi llais i bobl yn y system gynllunio, rydym yn helpu creu Cymru sy'n fwy cyfartal gyda chymunedau mwy cydlynol.

Ceir mwy o wybodaeth am ein strategaeth yn ein Cynllun Busnes cyfredol 2020-2023:

www.planningaidwales.org.uk/about-us-2/key-documents-and-policies/business-plans/?lang=cy

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn elusen gofrestredig ac yn gwmni wedi ei gyfyngu gan warant. Cawn ein cyllid sylfaenol gan Lywodraeth Cymru ond cadwn ganran uchel o ryddid i weithredu'n annibynnol ar ran cymunedau.

Rhif elusen 1000115. Cwmni yn cyfyngedig gan warant 2526875 (Cymru)

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

Ein gwasanaethau

Mae ein gwasanaethau, sydd â chyllid craidd, yn cynnwys dosbarthu hyfforddiant ar gynllunio i ystod o gynulleidfaoedd, datblygu canllawiau sy'n hawdd eu darllen a llinell gymorth sy'n rhoi cyngor cynllunio am ddim. Rydym hefyd yn ymgymryd â phrosiectau a chomisiynau ar ran Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Cynllunio Lleol a Chynghorau Cymuned a Thref.

Hyfforddiant

Gall Cymorth Cynllunio Cymru gynnal cyrsiau hyfforddiant ymgysylltiol a llawn gwybodaeth ar gyfer aelodau etholedig, cynghorau cymuned a thref, grwpiau cymunedol a sefydliadau ledled Cymru. Mae'r pynciau'n cynnwys Cyflwyniad i Gynllunio, Ymateb i Geisiadau Cynllunio a Gwneud y Mwyaf o'ch Dylanwad ac Cyflwyniad i Gynlluniau Cynefin. Yn ystod 2019, dechreuodd Cymorth Cynllunio Cymru ddatblygu llwyfan hyfforddi newydd ar-lein er mwyn traddodi hyfforddiant ar fideo i gynulleidfa ehangach. Bydd y llwyfan yn lansio yng ngwanwyn 2020.

Cymorth Cynllunio Cymru
Hyfforddiant Ar-lein



Gwasanaethau Ymgysylltiad Cymunedo

Fel sefydliad trydydd parti, rydym wedi darganfod, dro ar ôl tro, bod cymunedau'n fodlon ymgysylltu â ni, hyd yn oed pan fo Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi dod ar draws rhwystrau i ymgysylltiad yn y gorffennol. Fel rhan o'n proses, rydym yn annog cydweithrediad gweithredol rhwng staff awdurdodau cynllunio lleol a grwpiau cymunedol, a thrwy hyn adeiladu gwell berthynas ar gyfer ymgysylltiad yn y dyfodol. Mae'n gwasanaethau ymgysylltiad cymunedol yn cynnwys datblygu strategaeth ymgysylltiad cymunedol, gweithdai hyfforddiant ar adeiladu gallu a chonsensws, gweithdai ymgysylltu â grwpiau nas clywir ac ymgysylltu ag ieuenctid ac cefnogaeth Cynlluniau Cynefin, yn cynnwys hyfforddiant ar a datblygu Cynllun Cynefin.

Datblygu Canllawiau

Mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi datblygu nifer o ddogfennau canllaw ar gynllunio sy'n hawdd eu darllen ar ran Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Cynllunio Lleol. Mae enghreifftiau'n cynnwys place-plans.org.uk ac *Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr (planningaidwales.org.uk/gtguide/lang?=cy)*

Gwerth Arian

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn cynnig gwerth arian rhagorol wrth draddodi ein gweithgareddau a'n gwasanaethau. Yn 2019/20 cyflawnwyd gennym:

Hyfforddiant & Digwyddiadau Rhwydweithiol:

- 7 cwrs hyfforddi i 96 cyfranogwr, a gynrychiolai 48 Cyngor Cymuned a Thref yng Nghymru
- 2 ddigwyddiad rhwydweithiol gyda 107 cyfranogwr yn mynychu
- 4 digwyddiad pwrpasol ar Gynlluniau Cynefin gyda 39 cyfranogwr yn mynychu
- 2 gwrs pwrpasol ar Ymateb i Geisiadau Cynllunio gyda 39 cyfranogwr yn mynychu
- 7 digwyddiad cenedlaethol ar Gynllunio eich Cynefin gyda 137 cyfranogwr a chynrychiolaeth o 81 Cyngor Cymuned a Thref
- 1 gweithdy hyfforddi ar Dai a Arweinir gan y Gymuned ar gyfer Canolfan Cydweithredol Cymru gyda 6 chyfranogwr yn mynychu a 1 gweithdy pwrpasol ar gynllunio ar gyfer staff Ramblers Cymru gyda 4 cyfranogwr yn mynychu

Llinell Gymorth:

- Nifer yr ymholiadau: 241
- Nifer a gynorthwywyd gan wirfoddolwyr: 67
- Oriau a gyfranwyd gan wirfoddolwyr: 68+
- CTCs helped: 11

Projects

- 5 digwyddiad ar Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) Pen-y-Bont ar Ogwr - 37 cyfranogwr
- 2 ddigwyddiad ar CDLl Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – 13 cyfranogwr
- 1 digwyddiad ym Mhrifysgol Caerdydd ar Gyfranogiad y Cyhoedd mewn Cynllunio – 30 cyfranogwr
- 1 digwyddiadd yn y Senedd ar gyfer Dathliadau 40 mlynedd o fodolaeth Cymorth Cynllunio Cymru – 40 cyfranogwr
- 1 digwyddiad seminar Arallgyfeirio Fferm Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog - 16 cyfranogwr
- 3 sesiwn galw-i-mewn ar ymgynghoriad cymunedol, 1 gweithdy ar gasglu tystiolaeth ac 1 digwyddiad i randdalwyr ar gyfer Cynllun Cynefin Y Drenewydd - 233 cyfranogwr

Online guidance

- Defnyddwyr i wefan Cynlluniau Cynefin: 1008
- Defnyddwyr unigryw i dudalennau cyngor Cynllunio: 2231
- Defnyddwyr unigryw i'n Canllaw ar Fframwaith Datblygu Cenedlaethol: 739
- Defnyddwyr unigryw i'n Canllaw newydd i Sipsiwn a Theithwyr: 166
- Derbyniodd 981 o danysgrifwyr 6 cylchlythyr yn ystod y flwyddyn

Rydym wedi cynorthwyo

6,157 o bobl

i ymgysylltu â materion cynllunio yng Nghymru yn ystod 2019/20

Derbyniodd 428 o unigolion dan hyfforddiant

Derbyniodd 241 o ymholwyr i'n Llinell Gymorth:

Derbyniodd 369 unigolyn

Debyniodd 5,119 defnyddwyr arweiniad ar-lein

Rhai uchafbwyntiau o'r flwyddyn ddiwethaf

Dathlu 40 mlynedd Cymorth Cynllunio Cymru

Dathlodd Cymorth Cynllunio Cymru ei benblwydd yn 40 oed mewn digwyddiad arbennig yn y Senedd ym mis Hydref 2019. Julie James AC, Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol oedd yn cynnal y digwyddiad a thraddododd araith allweddol ardderchog yn pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltiad cymunedol â'r system gynllunio.

Wrth amlygu bod Llywodraeth Cymru yn falch o fod wedi ariannu Cymorth Cynllunio Cymru am y 15 mlynedd diwethaf, esboniodd Julie hefyd bod "Llywodraeth Cymru yn bwriadu ail-archwilio rôl ymgynghoriad, ymgysylltiad a chyfranogaeth yn y system gynllunio ac yn awyddus bod Cymorth Cynllunio Cymru yn cefnogi'r siwrnai gyffrous hon."

Roedd y digwyddiad wedi dod â sylfaenwyr, gwirfoddolwyr a chyfeillion y sefydliad at ei gilydd. Rhannodd Richard a Sue Essex, a oedd ymysg y sylfaenwyr a'r gwirfoddolwyr cynnar yng Ngwasanaeth Cymorth Cynllunio De Cymru, hanesion hiraethus am sefydlu'r gwasanaeth tra'n magu teulu ifanc a delio ag ymholiadau cynllunio o'u bwrdd yn y gegin.

Amlygodd Richard a Sue yr angen i aelodau'r cyhoedd gael mynediad i wasanaeth cynllunio cyfeillgar a diduedd 40 mlynedd yn ôl, angen sy'n dal i fodoli hyd heddiw. Roeddent hefyd yn cydnabod gwerth hyfforddiant rhagweithiol a gwaith prosiect mae Cymorth Cynllunio Cymru yn ei gyflenwi i godi gallu cymunedau i gael dweud eu dweud ar faterion cynllunio.

Llunio Eich Cymuned – Rôl Cynlluniau Cymuned a Chynlluniau Cynefin
Cynhadledd ar y cyd rhwng Cymorth Cynllunio Cymru ac Un Llais Cymru – Mehefin 2019

Ym Mehefin 2019, cynhaliwyd cynhadledd partneriaeth llwyddiannus gan Gymorth Cynllunio Cymru ac Un Llais Cymru yn Llanrwst.

Yn y digwyddiad cyntaf hwn croesawyd Mark Newey, Pennaeth Cangen Cynlluniau yn Llywodraeth Cymru, a draddododd araith allweddol y bore gan amlygu pwysigrwydd cynllunio lleol ar gyfer ein cymunedau a'n trefi. Esboniodd Mark bod Cynlluniau Cynefin yn "cyflenwi canlyniadau lleol, yn helpu adeiladu consensws a chyfrannu i'r broses cynllun datblygu".

Denwyd dros 70 cyfranogwr i'r digwyddiad, yn cynnwys Swyddogion Cynllunio Awdurdodau Lleol, cynrychiolwyr o Gynghorau Cymuned a Thref ar draws Cymru, swyddogion Llywodraeth Cymru a phroffesiynolwyr ymarfer preifat.

Yn ystod y digwyddiad cynhaliwyd Gweithdai Ymarfer a redwyd gan arbenigwyr cynllunio cymunedol i helpu cyfranogwyr i wneud penderfyniadau ynghylch a oedd Cynlluniau Cynefin neu Cynlluniau Cymuned yn iawn i'w cymunedau hwy, gan nodi cyfres o astudiaethau achos yn cynnwys Y Drenewydd a'r Borth.

Yn y prynhawn croesawyd Iona Hughes o Swyddfa Comisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol a amlinellodd amcanion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r Gwiriwr Siwrnai sy'n gosod y camau a ddylid eu cymryd gan gyrff cyhoeddus yn ystod eu siwrnai o gyfrannu at uchelgeisiau llesiant.

Roedd yr holl sgyrsiau a'r gweithdai trwy gydol y dydd wedi caniatáu trafodaeth bellach gyda chyfranogwyr ynghyd â synnwyr o ddysgu, o bob rhan o Gymru.

Roedd y digwyddiad yn lwyddiant mawr a gobeithir cynnal cynhadledd debyg yng nghalendr 2020 /21.

Ein Gwaith: Astudiaethau Achos

Ymgysylltiad Cymunedol mewn Cynlluniau Datblygu Lleol

Comisiynwyd Cymorth Cynllunio Cymru gan sawl Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) rhwng 2018 – 2019 i gefnogi gweithgaredd ymgysylltiad cymunedol mewn perthynas â'u hymgynghoriaethau Strategaeth a Ffefrir - Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd. Un enghraifft yw ein gwaith gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr, a ddigwyddodd yn ystod 2019.

Beth oedd ein hamcanion?

- Cynyddu dealltwriaeth y gymuned o'r broses CDLl a chynnwys y Strategaeth a Ffefrir. Ar yr un pryd, cynyddu eu gallu i ymgysylltu yn ymgynghoriad y cynllun a chreu polisi strategol.
- Gwella cyfathrebu rhwng yr awdurdod a chynghorau cymuned a thref.
- Lleihau'r potensial o wrthdaro yng nghamau olaf paratoi'r cynllun.
- Darparu'r awdurdod gydag adroddiad yn cynnwys y materion cynllunio a godwyd gan y rhai a fynychodd.

Sut wnaethom ni hyn?

Paratoi a thraddodi digwyddiadau ymgysylltiad cymunedol yn unol â Chytundeb Cyflawni y ACLl. Targedwyd y digwyddiadau ran fwyaf at gynghorwyr cymuned a thref yn gweithredu o fewn ardal yr ACLl.



Pa wahaniaeth mae hyn wedi ei wneud?

- Cefnogi dealltwriaeth y gymuned am faterion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd sy'n wynebu'r sir dros y 15 mlynedd nesaf.
- Datblygu cydnabyddiaeth cymunedol o'r rôl y gall cynllun lleol chwarae yn rheoli'r materion gwahanol hyn sy'n aml yn cystadlu yn erbyn ei gilydd.
- Cyflwyno cymunedau lleol i opsiynau a pholisïau strategol sydd, gyda'i gilydd, yn nodi graddfeydd gwahanol a lleoliadau posibl ar gyfer twf ar draws ardal yr awdurdod.
- Darparu cymunedau â dealltwriaeth o broses y cynllun datblygu lleol a sut i gymryd rhan.
- Adrodd ar faterion cynllunio, a godir gan gymunedau, i'r ACLl.
- Helpu adeiladu perthynas gryfach rhwng yr awdurdod lleol â'i gymunedau lleol.

Ein gwasanaeth Llinell Gymorth

Cysylltodd galwr â Chymorth Cynllunio Cymru ym Mai 2019 yn gofyn am gyngor ynghylch cyflwyno sylwadau ar gais cynllunio am siop bysgod a sglods ger ysgol yng Nghaerdydd. Fe'u cyfeiriwyd atom trwy'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru.

Roeddent yn gwrthwynebu'r cais gan ddadlau bod sawl darn o ddeddfwriaeth a pholisïau'r llywodraeth (yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru) yn rhoi dyletswydd i awdurdodau lleol i wrthod ceisiadau er mwyn gwarchod iechyd a llesiant plant ysgol. Credant y byddai gwrthod ar y seiliau hyn yn gosod cynsail i ardaloedd eraill wrthwynebu'r fath geisiadau ac roeddent wedi llunio crynodeb o ystyriaethau deddfwriaethol yn berthnsaol i'r cais. Hefyd roedd pryder yghylch gwrthdaro buddiannau posibl.

Beth oedd ein hamcanion?

- Consider the planning application and the concerns raised by the caller.
- Consider the draft comments the caller had prepared and advise on their suitability and applicability to the application.
- Explain the options available to the caller in terms of speaking at committee.

Sut wnaethom ni hyn?

- Reviewed the draft representation and application in detail. Advice was provided in terms of what the LPA would consider and under which legislation. While the concerns around public health were noted, it was advised that it was a matter for the LPA to decide how much weight was given to this argument. The content of the Planning Officer's report was also presented and discussed with the caller.
- The Planning Engagement Officer explained that the case would be considered on its own merits.
- The appeal process was explained, as were issues around potential conflicts of interest. It was also explained that planning decisions are made in line with planning policy.

Pa wahaniaeth mae hyn wedi ei wneud?

Gwrthodwyd y cais ar sail amwynder preswyl a phenderfynodd yr ymgeisydd i beidio ag apelio yn erbyn y penderfyniad. Cysylltodd y galwr â ni gyda chwestiynau dilynol ynghylch goblygiadau'r achos hwn, yn benodol, y defnydd posibl o 'amodau rheolaeth' ac a all aelodau'r pwyllgor wrthod cais ar sail iechyd y cyhoedd. Roedd y gwirfoddolwr a oedd yn delio â'r achos hwn yn gallu ateb y cwestiynau hyn yn foddhaol trwy esbonio defnydd amodau cynllunio a rôl ystyriaethau iechyd cyhoeddus mewn penderfyniadau cynllunio.

Digwyddiad Arallgyfeirio Fferm Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar Ymgysylltiad Cymunedol

Comisiynwyd Cymorth Cynllunio Cymru gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i gefnogi gweithgaredd ymgysylltiad cymunedol mewn perthynas â'u gwaith ar adolygu Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Arallgyfeirio Fferm yr Awdurdod.

Beth oedd ein hamcanion?

- Cynyddu dealltwriaeth materion ffermio yn y Parc Cenedlaethol a chynnwys y CCA presennol.
- Gwella cyfathrebu rhwng yr awdurdod a'r gymuned ffermio.
- Darparu'r awdurdod ag adroddiad yn cynnwys y materion a godwyd gan y rhai a fynychodd.

Sut wnaethom ni hyn?

Paratoi a chynnal digwyddiad gweithdy i drafod materion ffermio o fewn y Parc Cenedlaethol ac ystyried adolygiad y canllawiau cynllunio atodol ar arllagyfeirio'r fferm.

Targedwyd y digwyddiad ran fwyaf at aelodau'r gymuned ffermio a'r cynghorwyr cymuned yn gweithredu o fewn ardal yr ACLl.

Pa wahaniaeth mae hyn wedi ei wneud?

- Datblygu cydnabyddiaeth o'r rôl y gall CCA chware yn rheoli'r materion gwahanol, a chystadleuol yn aml, sy'n berthynol i fusnesau ffermio ac amcanion y Parc Cenedlaethol.
- Darparu'r gymuned ffermio â dealltwriaeth o'r broses cynllun datblygu lleol a rôl y CCA a sut i gymryd rhan.
- Adrodd ar faterion cynllunio a ffermio, a godwyd gan y cymunedau ffermio, i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.
- Wedi helpu adeiladu perthynas gryfach rhwng yr awdurdod cynllunio a'i gymunedau ffermio lleol.

Gwirfoddolwyr

Fel elusen fechan rydym yn dibynnu ar ein rhwydwaith o oddeutu 30 o wirfoddolwyr. Mae'r gwirfoddolwyr yn helpu gydag ystod eang o weithgareddau, yn cynnwys darparu cyngor i aelodau'r cyhoedd, traddodi hyfforddiant a datblygu canllawiau hygyrch. I gael mwy o wybodaeth am wirfoddoli, ewch i'n tudalen gwefan yma: www.planningaidwales.org.uk/volunteer

Bwrdd Rheoli

I gael mwy o wybodaeth am y Bwrdd Rheoli ewch i'n tudalen gwefan yma:
www.planningaidwales.org.uk/our-people/management-board/

Gwybodaeth ariannol

Caiff Cymorth Cynllunio Cymru ei gyllid craidd gan Lywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn creu incwm ychwanegol trwy weithgareddau prosiect a gomisiynir.

Bob blwyddyn mae'r Bwrdd Rheoli yn adolygu'r sefyllfa ariannol ac yn gosod cyllid blynyddol yn erbyn ei Strategaeth Ariannol Tymor-Canolig. Trwy'r broses hon mae'r Bwrdd yn bwriadu, yn gyffredinol, i fantoli'r llyfrau neu, ble bo'n angenrheidiol, i geisio cael ychydig o arian yn ychwanegol i adeiladu cronfeydd yr elusen ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol, ac i liniaru yn erbyn risg ariannol. Cynhwysir polisïau rheolaeth risg, ac arian wrth gefn, yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr sy'n cydfynd â'r Cyfrifon Terfynol 2019/20.

www.planningaidwales.org.uk/about-us-2/key-documents-and-policies/annual-accounts/

Gwybodaeth cysylltu

Ebost: info@planningaidwales.org.uk

Ffôn: 02920 625009

Cyfeiriad: 174 Heol yr Eglwys Newydd, Y Mynydd Bychan, Caerdydd, CF14 3NB

Planning Aid **Wales**
Cymorth Cynllunio **Cymru**

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn falch i gyhoeddi lansiad ei

Lwyfan Hyfforddi Ar-lein Newydd

Dysgu gan yr arbenigwyr

Datblygir ein hyfforddiant gan Gynllunwyr Tref Siartredig.

Cynllunio mewn Cymraeg Plaen

Ysgrifennir ein cyrsiau gan ddefnyddio iaith blaen.

Dysgu ar eich Cyflymder eich hun

Dysgu pryd a ble y dymunwch. Adolygu pryd bynnag sydd angen i chi wneud.

Cwrs Ar-lein Newydd: *Cynllunio: O'r Dechrau i'r Diwedd*

Cynhyrchwyd ein cwrs blaenllaw newydd 'Cynllunio: O'r Dechrau i'r Diwedd' yn benodol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru.

Mae'r cwrs yn gyflwyniad perffaith i, neu'n fodd o loywi, holl agweddau y system gynllunio yng Nghymru.

Bydd y cwrs yn cymryd tua 2 awr i'w gwblhau ar un tro, neu gellir ei weld mewn rhannau (rhennir y cwrs i 20+ o sesiynau fideo byrion).

Mae'r cwrs yn darparu cyflwyniad i'r pynciau canlynol:

- Trosolwg – sut mae cynllunio yn gweithio a phwy yw pwy mewn cynllunio yng Nghymru.
- Polisi Cynllunio – polisi cenedlaethol, Cynlluniau Datblygu Lleol a Chynlluniau Cynefin.
- Ceisiadau Cynllunio – sut y prosesir ceisiadau cynllunio, sut y gwneir penderfyniadau a sut i ymateb i geisiadau cynllunio.
- Rol Cynghorau Cymuned a Thref yn yr uchod.

I ddysgu mwy, cliciwch yma>>

Cymorth Cynllunio Cymru
Hyfforddiant Ar-lein